# Cyngor Cymuned Tudweiliog
Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 8fed Rhagfyr 2025
Festri Capel Dinas

Presennol: Terry Hughes, Henri Hughes, Gareth Jones, Catrin Williams, Alan Hughes, Sioned Pearson, Dafydd Williams

Ymddiheuriadau: Chris Brady, John Davies, Alun Williams

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cyfnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Mynwent Newydd Tudweiliog-** Ni chafwyd diweddariad am y fynwent newydd gan nad oedd Chris Brady yn bresennol.
   b. **Polisi Gosod Tai** –Dim diweddariad.
   c. **Hysbysfwrdd –** Ni chafwyd diweddariad gan nad oedd Chris Brady yn bresennol.
   ch. **Archwyliad Allanol –** Dim diweddariad.
   d. **Ymddiswyddiad y Clerc –** Cafodd y Clerc sgwrs gyda Clerc Aberdaron, bydd y ddau yn cael sgwrs eto cyn diwedd y mis.
   Dd. **Cronfa Gymorth Beilot Dydd Gwyl Dewi 2026 -** Penderfynodd yr Is gadeirydd Sian Parri geisio am y grant - cafwyd ar ddeall fod y cais wedi ei dderbyn - byddwn yn derbyn mwy o fanylion mis Ionawr gan Sian Parri,
   e. **Perthyn** - Yn dilyn ebost at y Cynghorwyr ar 19eg Tachwedd gan Sian Parri ynglyn a
   chais grant Perthyn Cwmpas, cafwyd 4 oedd yn cefnogi i ymgeisio am y grant (quorum o 4), penderfynodd Sian Parri gyflwyno cais. Hyd at noson yma (noson pwyllgor Cyngor Cymuned) doedd dim

penderfyniad wedi ei dderbyn.

F. **Cytiau Porthysgaden -**Derbynwyd ebost gan Hugh O'Dinnell Carter Jonas yn datgen eu bod wedi ymweld a'r safle ac yn cydweld fod angen gwneud rhywbeth i'r cwt, ond hyd yma does dim penderfyniad o beth wedi ei wneud eto, a'u bod yn edrych am obsiynau grant. Bydd yn ein diweddaru pan fydd penderfyniad wedi ei wneud.

Ff. **Arwydd i ddangos y ffordd i ben Garn Fadryn** - Derbynwyd ebost gan Swyddog Llwybrau. Datgelodd nad oes llwybyr cyhoeddus fel y cyfryw or ffordd ger y capel i'r mynydd, ac y bod yna arwydd bychan yn y maes parcio ac yng ngwaelod y trac. Bydd yn cysylltu a Swyddog ANHE gan mai efallai mai mater iddyn nhw fydd hyn.

4. Gohebiaeth:

**a. Cyflog y Clerc -** Cafwyd caniatad i'w dalu.

**b. Placiau 'er cof' -** Derbynwyd ymateb gan yr Adran Cynllunio yn ein gwybyddu nad oes angen caniatad cynllunio i osod placiau.

**c. Gor-yrry drwy pentref Tudweiliog -** Cafodd y Cynghorwyr gyfle i Ddarllen llythyr Mattie Ellis-Hughes at yr AS Liz Savill ynghyn ac ymateb Liz Savill i'r llythyr.

Ch.**Cynllun Partneriaeth Toiledau Cyhoeddus -** Cafodd y Cynghorwyr gyfle i ddarllen yr ebost dderbynwyd gan y Swyddog Llifon Arwyn Foulkes oedd yn cynnwys llythur gan yr Adain Bwrdeistrefol yn ymwneud a'r cyllun partneriaeth toiledau cyhoeddus.

5. Unrhyw fater arall:

a. Derbynwyd cwyn fod cyflwr y ffordd rhwng Canolfan Llaniestyn a'r gyffordd am bentref Garn Fadryn- bydd y Clerc yn cysylltu a'r Adran Ffyrdd.

b. Derbynwyd pryder ynglyn a'r garafan sydd wedi ei gosod heb ganiatad yn Llangwnnadl bellech wedi adeiladu 'porch'. Pryder penaf y trigolion cyfagos yw nad oes system carffosiaeth ar y safle. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r Cynghorydd Sir Gareth Jones.

c. Penderfynwyd a pasiwyd y bydd holl waith ynglyn a creu y fynwent newydd yn cael ei roi allan i tendrau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Ionawr 12fed am 7.30yh**
**Festri Capel Tudweiliog.**